

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55  
(FFYRDD YMUNO AC YMADAEL WRTH  
GYFFORDD 4 (CYFNEWIDFA DALAR HIR),  
YNYS MÔN) (GWAHARDD CERBYDAU DROS  
DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, wrth Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir), Ynys Môn.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darnau o ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain a thua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir).

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol dros nos (rhwng 19:00 o'r gloch a 06:00 o'r gloch) o 16 Awst 2021 hyd 24 Awst 2021, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Bydd y gwaith yn dechrau ar y ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin yn gyntaf, yna ar y ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain hyd nes y bydd y gwaith wedi ei gwblhau.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin sy'n dymuno ymadael wrth Gyffordd 4 fydd aros ar y gerbyttffordd tua'r gorllewin, parhau i'r gyffordd nesaf gan ymadael yno a dychwelyd ar y gerbyttffordd gyferbyn tua'r dwyrain i ymadael wrth Gyffordd 4.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin sy'n dymuno ymuno wrth Gyffordd 4 fydd ymuno â'r gerbyttffordd tua'r dwyrain wrth Gyffordd 4, parhau i'r gyffordd nesaf gan ymadael yno a dychwelyd ar y gerbyttffordd tua'r gorllewin.

I'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain ar y llwybrau eraill a ddisgrifir uchod.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

**THE A55 TRUNK ROAD (ENTRY AND EXIT  
SLIP ROADS AT JUNCTION 4 (DALAR HIR  
INTERCHANGE), ANGLESEY) (TEMPORARY  
PROHIBITION OF VEHICLES)  
ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road at Junction 4 (Dalar Hir Interchange), Anglesey.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the lengths of the eastbound and westbound exit and entry slips roads of the A55 at Junction 4 (Dalar Hir Interchange).

The temporary prohibition, which will be signed accordingly, will operate overnight (19:00 hours to 06:00 hours) from 16 August 2021 until the 24 August 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed. Works will commence on the westbound slip roads first, then on the eastbound slip roads until completion of the works.

The alternative route for westbound vehicles wishing to exit at Junction 4 will be to remain on the westbound carriageway, continue to the next Junction, exit and return on the opposite eastbound carriageway to exit at Junction 4.

The alternative route for westbound vehicles wishing to enter at Junction 4 will be to join the eastbound carriageway at Junction 4, continue to the next Junction, exit and return on the westbound carriageway.

Vice versa for eastbound vehicles on the alternative routes described above.

Although the proposed Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn  
oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,  
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc  
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice in larger print can be  
obtained from Orders Branch, Transport,  
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff  
CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government